Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr

**Laburnam Drive**
**Cwmdâr**
**Aberdâr**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF44 8RT**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdar

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 306 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 60 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysg arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 21.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 21.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ionawr 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 10/05/2016 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn ysgol ofalgar, hapus a chartrefol ble mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn ymddwyn yn gadarnhaol ac aeddfed at eraill. Maent yn teimlo'n falch o'u hysgol a'i chymuned. Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau da at ddysgu a lles, yn ogystal â meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol ac yn ymateb i'w hanghenion yn dda.

Mae'r Gymraeg yn newydd i lawer o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r plant ieuengaf yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol. Gydag anogaeth oedolion, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau bod pob disgybl yn cael eu herio'n llawn nac yn cynnig cyfleoedd buddiol i gymhwyso ac adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o arweinwyr sy'n cefnogi athrawon a chynorthwywyr yn gadarn. Maent yn cyfrannu'n werthfawr at sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro'n adnabod cyfleoedd buddiol i rannu arfer dda ar draws yr ysgol neu i drefnu cefnogaeth i gysoni a gwella'r addysgu a'r ddarpariaeth. Yn ogystal, nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon strategol er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a beth sydd angen parhau i wella. Yn gyffredinol, nid yw trefniadau diogelu'r ysgol yn ddigon cydlynus na chadarn.

## Argymhellion

A1 Gwella a chryfhau trefniadau amddiffyn plant a diogelu

A2 Cryfhau gallu arweinwyr i weithredu'n fwy strategol wrth arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion datblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd gwahanol yn briodol mewn cyd-destunau sy'n eu hannog i fwynhau dysgu, ar y cyfan. Gydag anogaeth oedolion, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ufudd ar gyfraniadau eu cyfoedion ac oedolion. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i'w siarad wrth fwynhau eu dysgu, er enghraifft wrth iddynt ail-ddweud stori tra'n dilyn strwythur penodol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn ymdrechu i siarad Cymraeg wrth gyflawni eu gwaith ac yn datblygu eu geirfa a phatrymau yn addas. Gyda chefnogaeth gyson oedolion, maent yn datblygu eu medrau siarad Cymraeg a Saesneg yn llwyddiannus gan geisio gwella safon yr hyn maent yn ei ddweud wrth siarad yn gynyddol gywir. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigon cyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol sy'n llesteirio eu hyder i siarad yn gynyddol rugl.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o dechnegau darllen. Er enghraifft, maent yn ymgolli'n llwyr wrth wrando, darllen ac ail-ddweud stori am y Tri Mochyn Bach. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau'n  gadarn ac yn mwynhau darllen ystod berthnasol o lyfrau a thestunau digidol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn datblygu eu medrau darllen uwch yn fuddiol, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am Charles Darwin fel rhan o'u gwaith ar anturwyr y byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu am Mr Dail. Wrth i'w medrau ddatblygu, mae'r mwyafrif yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n gynyddol hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 4, er enghraifft, yn dewis a dethol geiriau'n greadigol wrth ysgrifennu dyddiadur yr Hugan Fach Goch. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n fwyfwy estynedig ac yn manteisio ar gyfleoedd cyson i fireinio a gwella safon eu gwaith, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu erthygl papur newydd am ras olaf Guto Nyth Brân. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon ar draws yr ysgol yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ymestyn eu gwaith ysgrifenedig yn gyson ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn datblygu eu medrau ysgrifenedig yn ddigon adeiladol dros amser.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. At ei gilydd, maent yn cymhwyso eu medrau rhif yn gyson mewn gweithgareddau dysgu perthnasol. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer yn cyfrif yn hyderus hyd at 10 ac yn

dwysáu eu dealltwriaeth o werth lle yn fedrus, er enghraifft wrth iddynt gyfateb gwrthrychau naturiol i'r rhif cywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth fesur effaith gwres ar wahanol fwydydd fesul 30 eiliad. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 3 a 4 yn casglu data am ddiddordebau eu cyfoedion a'u dosbarthu'n fedrus mewn diagram Venn. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn casglu data ar fesuriadau'r corff gan drosglwyddo'r wybodaeth i siart cylch. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo medrau iaith a mathemateg, yn gyffredinol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu medrau cyfathrebu digidol i greu gwahoddiad deniadol i barti smwddis. Wrth i'w medrau ddatblygu, maent yn cynnwys lluniau a thestunau ac yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio system dreulio'r corff. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn defnyddio rhaglenni perthnasol yn fedrus, er enghraifft wrth iddynt fesur nodweddion y corff a chyflwyno'r data'n systematig. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau yn adeiladol mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fuddiol, a phan fo'r ddarpariaeth yn caniatáu, maent yn mwynhau cyflwyno gwaith gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwerthfawrogi bod eu cyflawniadau'n  cael eu dathlu ar furluniau'r dosbarth.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae Ysgol Gymraeg Aberdâr yn gymuned hapus, gyfeillgar a gofalgar ble mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr i'r ysgol yn gwrtais a pharchus. Mae'r awyrgylch hyfryd hyn yn cael ei greu gan yr holl staff a'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion mewn gwersi ac wrth chwarae a symud o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda.  Mae'r holl staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yr ysgol yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd yn llwyddiannus ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrando ar Flwyddyn 2 yn darllen.

Mae bron pob disgybl yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae ymweliadau cyson gan yr heddwas cymunedol i gynnig sesiynau ar ystod o themâu fel diogelwch ar y we, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon cyffuriau yn cefnogi gwybodaeth y disgyblion ar sut i gadw'n ddiogel yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, yn ymroi i'r dysgu yn syth ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau gan athrawon a chynorthwywyr. Ar frig yr

ysgol, mae disgyblion yn dechrau cyfrannu syniadau i'w thema, er nid yw hyn wedi ei ddatblygu'n llwyr ar draws yr ysgol.

Yn dilyn cyfnod y pandemig, mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd diweddar i fynychu gweithgareddau a chlybiau sy'n hybu eu hiechyd a lles. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i fynychu clwb pêl-rwyd ar ôl ysgol, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithdai gyda swyddog cefnogi rygbi am ddiet cytbwys a sut i gadw'n iach. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyd a diod.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus ac mae'r cyngor ysgol wedi llwyddo i hybu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu hymwybyddiaeth o beth yw dinesydd da a phwysigrwydd hawliau plant, yn gadarn. Mae'r disgyblion hynny sy'n aelodau o bwyllgorau neu gynghorau yn cyfrannu'n briodol i weithdrefnau'r ysgol, er enghraifft trwy roi mewnbwn i'r polisi gwrthfwlio.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, mae ychydig iawn yn cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu dysgu ac yn amharu ar drefn y diwrnod i ddisgyblion eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol gwricwlwm addas sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu addas ar draws y meysydd dysgu er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y disgybl. Maent yn darparu diwrnodau penodol ar ddechrau bob thema er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion yn eu dysgu, er enghraifft trwy ymweld ag amgueddfa leol fel rhan o'r thema 'Trwy'r Oesoedd' ym Mlwyddyn 3. Yn gyffredinol, mae profiadau dysgu'n galluogi llawer o'r disgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol mewn sesiynau penodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion gymhwyso eu medrau'n llawn ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r athrawon yn cydweithio ag ysgolion y clwstwr yn briodol wrth ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, er mwyn darparu profiadau diddorol a buddiol i'r disgyblion. Er enghraifft, mae thema'r clwstwr am Fecsico yn caniatáu i'r disgyblion ddatblygu medrau Sbaeneg fel rhan o faes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hyd yn hyn yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau cyson am yr hyn maent yn ei ddysgu.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae addas. At ei gilydd, maent yn darparu profiadau sy'n defnyddio'r ardal dysgu tu allan yn briodol fel modd o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau rhifedd drwy drefnu cerrig gyda rhifolion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd amrywiol i ddatblygu eu gallu i wneud dewisiadau dysgu yn gynyddol annibynnol.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n gadarn i annog y disgyblion i siarad Cymraeg o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Ar y cyfan, maent yn eu cefnogi i ymarfer yr iaith yn eu

gwaith a'u chwarae er mwyn datblygu eu rhugldєr a'u medrau. Er bod cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddathlu Cymreictod a thraddodiadau Cymreig yn addas, prin yw'r profiadau yn seiliedig ar ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o ymwelwyr a digwyddiadau pwysig er mwyn cefnogi dealltwriaeth y disgyblion o Gymreictod a diwylliant Cymreig, er enghraifft trwy wahodd bardd a cherddor i'r ysgol i gydweithio â'r disgyblion.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas waith hynod gadarnhaol â'r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn briodol ac yn eu cefnogi'n fuddiol mewn ystod addas o weithgareddau. Yn yr arfer orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu mewn gweithgareddau sy'n eu sbarduno i ddysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd sy'n cynnig her i leiafrif y disgyblion gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio canmoliaeth ac adborth llafar yn briodol er mwyn dathlu llwyddiannau'r disgyblion a'u harwain at y camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio strategaethau perthnasol i fyfyrio a gwella safon eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i wella'u gwaith ysgrifennu creadigol trwy adborth yr athrawon. Mae nodau'r rhan fwyaf o'r gwersi yn glir ac yn cael eu rhannu â'r disgyblion yn gyson. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynnal adolygiadau cynnydd yn rheolaidd yn ystod y gwersi i annog y disgyblion i wirio'u cynnydd ac i wella safon eu gwaith. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd pwrpasol i wella ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth ysgrifenedig athrawon nac i drafod asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Mae gan yr ysgol drefniadau olrhain cynnydd cadarn sy'n cefnogi athrawon a chynorthwywyr i ddarparu rhaglenni cefnogi effeithiol i grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer eu lles.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r holl staff yn ymrwymo i gefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol bron bob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n dda i greu ethos cynhaliol ac ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae perthynas gyfeillgar rhwng y staff a'r disgyblion sydd yn arwain at gymuned ofalgar lle mae pwyslais amlwg ar barch at bob unigolyn. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Maent yn sicrhau bod holl weithgareddau'r ysgol yn hygyrch i bron bob disgybl wrth iddynt geisio lleihau effaith tlodi ar addysg disgyblion.

Mae'r ysgol yn paratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol trwy gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaethau buddiol. Trwy arweiniad clir a chadarn y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae staff wedi ymgymryd ag hyfforddiant a gweithdai bwriadus er mwyn mireinio'r trefniadau i gyfateb i'r gofynion newydd. Er enghraifft, maent wedi derbyn hyfforddiant i baratoi cynlluniau addysg unigol a chynlluniau datblygu unigol i gefnogi disgyblion o fewn eu dosbarthiadau. Mae hyn hefyd wedi cryfhau dealltwriaeth staff o ran sut i gefnogi disgyblion ADY yn fwy effeithiol, gan gynnwys dewis a dethol yr ymyraethau a chefnogaeth fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion dysgu a'u lles. Yn ogystal, mae gan yr ysgol drefniadau olrhain cynnydd cadarn ar waith er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn gynnar. Caiff cynlluniau dysgu unigol eu

gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r rhieni a gofalwyr yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth allweddol am gynnydd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau addoli ar y cyd addas sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae'r disgyblion yn elwa o ystod dda o ymweliadau a phrofiadau dysgu addysgol sydd yn datblygu eu medrau a'u diddordeb yn eu dysgu yn addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon ac arweinwyr yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu a dwysàu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol yn eu gwaith. Er bod cyfnod pandemig Covid-19 a'r adeiladu diweddar ar safle'r ysgol wedi lleihau'r cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion, mae staff wedi dechrau cynnig clybiau a sesiynau buddiol i blant tu allan i oriau'r ysgol unwaith eto.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ac athrawon yn cyfathrebu'n briodol â'r rhieni a gofalwyr gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau. Er hyn, nid yw'r trefniadau bob tro'n ddigon eglur i rieni a gofalwyr ac nid oes digon o gysondeb yn y dulliau rhwng athrawon a'r cartref.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar faterion yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw trefniadau diogelu'r ysgol yn ddigon cydlynus na chadarn, ac mae angen cryfhau agweddau ar ddulliau cofnodi digwyddiadau. Nid yw bob aelod o staff yn deall at bwy y dylent gyfeirio pryderon penodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Yn gyffredinol, mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn rhannu eu gweledigaeth gyda rhanddeiliaid yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar elfennau o'r ddarpariaeth, yn enwedig wrth gefnogi disgyblion ag ADY a datblygiad lles disgyblion yn gyffredinol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o arweinwyr sy'n cefnogi athrawon a chynorthwywyr yn gadarn. Er bod eu cyfrifoldebau wedi newid yn lled ddiweddar, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u dyletswyddau ac maent yn modelu a hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu at greu amgylchedd ac ethos gofalgar a chefnogol ar draws yr ysgol. Er hyn, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon strategol er mwyn mynd i'r afael yn llawn â meysydd pwysig i'w gwella. O ganlyniad, mae anghysondebau yn ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol gan gynnwys paratoi ar gyfer y ddeddf ADY ddiweddar a'r Cwricwlwm i Gymru. Er hyn, mae paratoadau ar gyfer y cwricwlwm yn eu dyddiau cynnar a heb gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth na deilliannau disgyblion hyd yn hyn. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Yn gyffredinol, maent yn cysylltu dysgu proffesiynol yn briodol â blaenoriaethau gwella'r cynllun gwella ysgol, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd i'r holl staff wella'u dealltwriaeth o strategaethau cefnogi disgyblion ag

ADY. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro'n  adnabod cyfleoedd buddiol i rannu arfer da ar draws yr ysgol neu i drefnu cefnogaeth i gysoni a gwella'r addysgu a'r ddarpariaeth.

Mae'r pennaeth yn darparu gwybodaeth ac adroddiadau priodol i aelodau'r corff llywodraethol sy'n cefnogi eu gwaith yn addas. Er hyn, nid yw'r adroddiadau bob tro'n datgan yn ddigon clir y prif faterion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a safonau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu aelodau'r corff i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn llawn. Er nid yw aelodau'r corff llywodraethol wedi ymgymryd â gweithgareddau monitro dros gyfnod y pandemig, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o flaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol presennol. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac mae'n ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn addas er mwyn gwella safonau a phresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion. Yn ogystal, maent wedi cydweithio â phartneriaid allanol er mwyn ymchwilio i sut mae'r ysgol yn gallu lleihau'r baich ariannol ar deuluoedd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn hyblyg o ran gofynion gwisg ysgol ac mae wedi talu am holl ymweliadau allgyrsiol y tymor hwn.

Mae gan arweinwyr amserlen briodol ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion dros y flwyddyn ysgol. Nid yw arweinwyr wedi llwyddo i ymgymryd yn llawn â'r  gweithgareddau monitro dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y pandemig Covid-19. Er hyn, maent wedi craffu ar lyfrau disgyblion yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau'r gweithgareddau hyn yn ddigon miniog nac yn darparu digon o wybodaeth feintiol a gwerthusol er mwyn arwain at dargedau pwrpasol yn y cynllun gwella ysgol. Er bod arweinwyr yn canfod barn rhieni a gofalwyr yn achlysurol, nid ydynt yn manteisio'n llawn ar eu syniadau ynghylch sut i wella'r ddarpariaeth a threfniadau'r ysgol.

Mae'r cynllun gwella yn cynnwys pum blaenoriaeth sy'n canolbwyntio'n addas ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, gan nodi cyfrifoldebau staff am weithredu a monitro cynnydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer gwelliant yn mynd i'r afael yn ddigon effeithiol â meysydd pwysig sydd angen sylw. Yn ogystal, nid yw'r gwerthusiad o'r cynllun gwella blaenorol yn canolbwyntio'n ddigonol ar fesur effaith y pwyntiau gweithredu ar gynnydd y disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a beth sydd angen parhau i'w wella.

Mae cyfarfodydd mewnol rhwng staff, yn ogystal â chyfarfodydd y corff llywodraethol, yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau allweddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.  Yn gyffredinol, mae arweinwyr a staff yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn gadarn er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chefnogi disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/11/2022